# Arwain gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rhoi cymorth, mentora, hyfforddi a chyngor yn ymwneud â gwaith ieuenctid i weithwyr eraill. Byddwch yn rhannu eich ymarfer proffesiynol ym maes gwaith ieuenctid wrth roi cymorth.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer ymarferwyr gwaith ieuenctid sy'n gweithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid ac sy’n rhoi cymorth a chyngor iddynt heb fod â chyfrifoldebau rheoli llinell. Mae hefyd yn addas ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n cynorthwyo eraill i ddatblygu eu hymarfer gwaith ieuenctid.

Yng nghyd-destun y safon hon, gall gweithwyr eraill olygu'r rheini o fewn ac y tu allan i'ch sefydliad, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt rôl a chyfrifoldebau gwaith ieuenctid penodol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi cymorth,mentora, hyfforddiant a chyngor yn ymwneud â gwaith ieuenctid i eraill
2. helpu pobl ym maes eich gwaith i ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o weithio a dod i'w penderfyniadau eu hunain o fewn ffiniau y cytunwyd arnynt
3. cynorthwyo gweithwyr eraill i arwain yn eu meysydd arbenigedd eu hunain a dangos parodrwydd i ddilyn yr arweiniad hwn
4. gweithio o fewn unrhyw strwythurau, gweithdrefnau a gofynion gofynnol eich sefydliad eich hun a sefydliadau eraill wrth roi cymorth i weithwyr eraill
5. gweithio yn unol â'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid wrth weithio gydag eraill
6. datrys unrhyw anawsterau a heriau y gall gweithwyr a gwirfoddolwyr eraill eu cyflwyno i chi
7. bodloni'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid, a'u heffaith ar faes eich gweithrediadau
2. y gwahaniaethau sylfaenol rhwng rheoli a rhoi cymorth mewn rôl lle nad ydych yn rheoli
3. y mathau o gymorth y gellir eu rhoi megis mentora, goruchwylio anffurfiol a chyngor ymarfer proffesiynol, a'r gwahaniaeth rhyngddynt
4. y mathau o gymorth a chyngor y bydd eu hangen ar eraill yn ôl pob tebyg a sut i ymateb i'r rhain
5. ffyrdd o adlewyrchu ymarfer proffesiynol ym maes gwaith ieuenctid wrth roi cymorth, mentora neu oruchwyliaeth anffurfiol i weithwyr eraill
6. gwahanol ddulliau ar gyfer cyfathrebu ag eraill a sut i ddewis a chymhwyso dulliau llwyddiannus mewn gwahanol sefyllfaoedd
7. mathau o anawsterau a heriau a allai godi, gan gynnwys gwrthdaro o fewn y maes, a ffyrdd o'u nodi a'u goresgyn
8. pwysigrwydd annog eraill i arwain, a'r ffyrdd y gellir cyflawni hyn
9. sut i rymuso eraill yn effeithiol
10. sut i ddewis gwahanol ddulliau a'u defnyddio'n llwyddiannus i annog, cymell a chynorthwyo aelodau'r tîm a chydnabod cyflawniad
11. eich gwerthoedd, eich cymhellion a'ch emosiynau
12. eich rôl a'ch cyfrifoldebau a faint o annibyniaeth sydd gennych
13. amcanion cyffredinol eich sefydliad
14. y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

Arwain gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CLD Standards Council Scotland |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CLD Standards Council Scotland |
| **RCU gwreiddiol** | LSI YW31 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ieuenctid |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Ieuenctid |
| **Geiriau Allweddol** | Ieuenctid; pobl ifanc; cynorthwyo; gweithwyr eraill; effeithiol; ymarfer; mentora; gwybodaeth; cyngor; goruchwylio; gwerthoedd; cymell; galluogi; gwella; ymddiried; datblygiad; amcanion |